

Trefniadaeth yr Ysgol

Mae'r ysgol wedi'i rhannu yn ddau ddsbarth, sef y Cyfnod Sylfaen a Cyfnod Allweddol 2. Er bod y plant yn cael eu dysgu, gan amlaf, yn eu grŵp dosbarth eu hunain, gellir cymryd disgyblion unigol neu grwpiau o ddisgyblion allan o'r dosbarth o bryd i'w gilydd. Byddai a wnelo hyn fel arfer ag anghenion addysgol arbennig.

Y mae dosbarthiadau'r ysgol wedi eu trefnu fel a ganlyn:

Y Cyfnod Sylfaen, yn cynnwys oedran meithrin, derbyn a blynyddoedd 1 a 2 CA2, yn cynnwys blynyddoedd 3, 4, 5 a 6.

Trefniadaeth yr Addysg a'r Dulliau Addysg

Cyflwynir pynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 yr ysgol oddi mewn i'r cyd-destun uchod:-

Pynciau Craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

1. Cymraeg
2. Saesneg
3. Mathemateg
4. Gwyddoniaeth

Pynciau Sylfaen y Cwricwlwm Cenedlaethol:

5. Daearyddiaeth
6. Hanes
7. Addysg Grefyddol
8. Celf
9. Cerdd
10. Technoleg
11. Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
12. Addysg Gorfforol

Ceisir sicrhau bod yr addysg a ddarperir yn hybu datblygiad moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol pob disgybl a bod natur y cwricwlwm cyflawn yn wahaniaethol, eang a chytbwys. I ymateb i'r gofynion hyn bydd trefniadaeth y dosbarth yn hyblyg; weithiau darperir gwaith ar sail oedran plant, dro arall bydd plant o ystod oedran sy'n rhychwantu mwy nag un flwyddyn ysgol yn cyd-weithio ar yr un dasg. Dysgir y plant fel uned dosbarth fydd o dan ofal un athrawes/athro sefydlog.

Cynllunir y cwricwlwm ar gyfer CA2 ar sail cynnwys pynciau craidd a sylfaen y Cwricwlwm Cenedlaethol. Nodir cyfraniad y meysydd hyn mewn dull systematig yng nghynlluniau yr athro/athrawes. Er mwyn sicrhau nag eithrir elfennau hanfodol o'r cwricwlwm cyflwynir y profiadau a'r gweithgareddau i blant yn draws-ddisgyblaethol drwy ddilyn themâu penodol.

Oddi mewn i'r drefn yma fe fydd athrawon yn rhoi ystyriaeth i allu pob plentyn. Byddant yn paratoi'n wahaniaethol er mwyn sicrhau datblygiad pob unigolyn. Er mwyn sicrhau dealltwriaeth ac ymroddiad i'r gwaith fe ddefnyddir amrywiaeth oddulliau dysgu megis: Dysgu unigol, dysgu dosbarth a dysgu grŵp

Atgyfnerthir y dysgu yn rheolaidd trwy sicrhau profiadau uniongyrchol megis ymweliadau a safleoedd hanesyddol, ymweliadau a'r theatr neu ymweliadau gan gwmnïau theatr mewn addysg, siaradwyr gwadd a chymorth rhieni.